Eco'r Wyddfa Mai 2009

Profiad Gwaith – Treuliodd Mathew Jones o Ysgol Brynrefail wythnos yma ar brofiad gwaith o 29ain oFawrth tan 3ydd o Ebrill.Gobeithio ei fod wedi mwynhau'r cyfnod yma.
Ymweliadau ar Ysgol –Treuliodd PC Neil Williams ddiwrnod yn yr Ysgol dydd Mawrth 31/3/09 yn sgwrsio gyda'r gwahanol ddosbarthiadau.
Yn ystod y prynhawn ar yr un diwrnod croesawyd Y Prifardd Selwyn Griffith yma i roi sgwrs i blant Bl 3 a 4.
Gweithgareddau codi arian ar gyfer y costau i fynd ar plant i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ar Fai 27ain. –
Nos Iau 2/4/09 cynhaliwyd Noson Bingo llwyddiannus. Yn ystod y noson cafodd Miss Bethan Williams o ddosbarth y Babanod eillio ei gwallt. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n brysur yn casglu arian i noddi Miss Williams ac i bawb am gefnogi 'r noson.
Boreau Coffi
Diolch hefyd i Gwenda, Carole a Carolyn am redeg boreau coffi ar gyfer y pentref yn y Neuadd Gymuned dros y pythefnos diwethaf. Llwyddwyd i godi dros £147 ar gyfer cronfa Caerdydd, a bu'r boreau'n boblogaidd iawn gyda rhieni a thrigolion y pentref. Diolch o galon i chi am eu trefnu.

Cynhelir cyngerdd yn Ysgol Brynrefail **Nos Iau Mai 7fed** yng nghwmni Hogia'r Wyddfa, , a Phlant yr Ysgol, yn ogystal gobeithir y bydd Cor lleol yn cymeryd rhan . Yr arweinydd fydd Arwel Jones.Tocynnau ar werth yn yr Ysgol, pris oedolion £5 plant Ysgol uwchradd £3
Ffair – Cynhelir ffair yn yr Ysgol dydd Sadwrn Mai 9fed gyda'g amryw o stondinau
Bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau codi arian yn parhau rhwng rŵan a chanol Mai, gyda'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gysylltu â'r ysgol.